## Llywodraeth Cymru

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) – rheoliadau 13, 14, 16 a 28)
Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) – erthygl 5A

## Datgan Parth dan Gyfyngiadau'r Tafod Glas ac Ardal Heintiedig ar 10 Tachwedd 2025

1) Â Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi adolygu'r dystiolaeth bod feirws y Tafod Glas yn cael ei drosglwyddo'n lleol yng Nghymru a chadarnhau felly bod feirws y Tafod Glas ar led yng Nghymru (a Lloegr), mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 yn barth dan gyfyngiadau yn unol â rheoliad 13(1)(a) o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd).

2) Hefyd, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 yn ardal heintiedig yn unol ag erthygl 5A o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd).

3) Y parth dan gyfyngiadau a'r ardal heintiedig yw'r ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1.

4) Bydd y mesurau a ddisgrifir yn Atodiad 2 yn gymwys yn y parth dan gyfyngiadau.

5) O ran yr ardal heintiedig:
    a. Y clefyd y mae'r ardal heintiedig yn cael ei datgan o'i achos yw'r Tafod Glas;
    b. Yr anifeiliaid y mae'r datganiad yn ymwneud â nhw yw anifeiliaid cnoi cil a chamelidau.
    c. Er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod yn rhaid wrth fesurau ychwanegol. Disgrifir y mesurau hyn yn Atodiad 2 a byddant yn gymwys yn yr ardal heintiedig.

6) Mae'r mesurau hyn yn gymwys o 00.01 ar 10 Tachwedd 2025 tan y caiff y Datganiad hwn ei ddirymu neu ei ddiwygio gan ddatganiad arall.

7) Mae'r Parth Rheoli Dros Dro gafodd ei ddatgan am 18:00 ar 1 Hydref 2025 drwy hyn yn cael ei ddirymu o 00.01 ar 10 Tachwedd 2025.

Llofnod:

Dr Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Amser a Dyddiad a wnaed: 10:00 ar 7 Tachwedd 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Bydd unrhyw berson sy'n torri amodau'r Datganiad hwn a wnaed o dan Reoliadau'r Tafod Glas 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn cyflawni trosedd ac o'i gael yn euog mewn llys ynadon, gallai gael dirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu gyfnod o garchar na fydd yn fwy na 3 mis, neu'r ddau (yn rhinwedd rheoliad 25 o Reoliadau Tafod Glas (Cymru) 2008)).

Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad mewn datganiad a wneir o dan Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 yn euog o drosedd ac o'i gael yn euog mewn llys ynadon, gallai gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau (yn rhinwedd adran 72 a 75 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981).


**Mae copïau o'r Datganiad hwn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

# Atodiad 1 – Parth dan Gyfyngiadau ac Ardal Heintiedig

Mae'r Parth dan Gyfyngiadau a'r Ardal Heintiedig yn cynnwys y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y llinell goch ac yn cynnwys pob sir ac awdurdod unedol yng Nghymru (h.y. Cymru gyfan).

*Gwelir manylion y Parth ar fap rhyngweithiol y tafod glas.*

At ddibenion eglurhaol, dangosir y parth dan gyfyngiadau a'r ardal heintiedig ar y map isod. Mae'r llinell goch yn amlinellu'r Parth dan Gyfyngiadau a'r Ardal Heintiedig.



## Atodiad 2 – Mesurau sy'n gymwys yn y Parth dan Gyfyngiadau / Ardal Heintiedig

1. Ni chaiff neb symud anifeiliaid na chynnyrch cenhedlu o barth dan gyfyngiadau ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol (rheoliad 13(2) o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)).

2. Gwaherddir person rhag symud anifail o fewn parth dan gyfyngiadau os yw'r anifail yn dangos arwyddion clinigol o'r Tafod Glas ar ddiwrnod ei gludo (rheoliad 13(5) o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)).

3. Ni chaiff neb rhewi unrhyw gynnyrch cenhedlu oni bai bod y cynnyrch cenhedlu yn cael ei rewi ar safle sydd wedi'i ddynodi o dan reoliad 14A o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) neu fel arall yn unol â thelerau trwydded a roddwyd gan Weinidogion Cymru (erthygl 5A(3)(e) o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)).

4. Rhaid paratoi a chadw cofnodion archwiliadwy a chywir o'r modd y caiff y cynnyrch cenhedlu eu casglu, eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu tan y cadarnheir trwy brofion bod yr anifeiliaid rhoddi yn rhydd o feirws y tafod glas ac y darperir tystiolaeth y cydymffurfir ag amodau'r drwydded ar gyfer unrhyw symudiad wedi hynny (erthygl 5A(3)(e) o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)).

5. Pan fydd anifail yn teithio trwy'r ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig, rhaid symud yr anifail mewn cerbyd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael a hynny heb ei ddadlwytho (erthygl 5A(7) o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)).

6. Sylwch fod Trwydded EXD612(W), a roddwyd ar 10 Tachwedd 2025, yn caniatáu eithriadau rhag effaith darpariaethau penodol sy'n gymwys yn ddiofyn o dan Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003. Nid yw'r drwydded honno yn **effeithio ar y cyfyngiadau ym mharagraffau 1-3 o'r Atodiad hwn (uchod),** fydd yn parhau'n gymwys yn y parth dan gyfyngiadau sy'n destun unrhyw drwydded a roddir o dan Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008.

**Nodiadau:**

1. Yn y Datganiad hwn:
    a. Ystyr “anifail” yw anifail sy’n cnoi cil, neu gamelid.
    b. ystyr “cynnyrch cenhedlu” yw embryo, ofwm neu semen anifail.

2. Mae safle y mae rhan ohono o fewn parth dan gyfyngiadau a rhan ohono o fewn ardal heb fesurau ar gyfer rheoli'r tafod glas yn cael ei drin fel pe bai o fewn y parth dan gyfyngiadau (Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd), rheoliad 7(4)(b)).

3. Ystyrir bod safle sy'n rhannol o fewn ac yn rhannol y tu allan i ardal heintiedig yn gyfan gwbl o fewn yr ardal heintiedig honno (Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd), rheoliad 5A(6))